# y Dinesydd

Cylchgrawn Cymraeg
Caerdydd a'r Cylch
Gorffennaf / Awst 1991
Rhif 175
Yn rhad ac am ddim



y Dinesydd

**Canu gwlad dros Lesotho**
*Lluniau rali y plant meithrin*
*tudalen 6*

**Llond gwlad o obaith**
Dyddiau cynnar y Dinesydd
*tudalen 7*

**Tewi'r pyls**
Darfod Dinas
*tudalen 8*

**Y mwydyn a'r pysgodyn**
Bwrlwm y Fro
*tudalen 8*


**Ellyllon Llancaiach**
*tudalen 13*


# Chwalu'r momentwm dysgu Cymraeg

**Mae'r pryder ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yn parhau, er gwaethaf newyddion mwy calonogol na fydd y Ganolfan ei hun yn cau.**

Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod cyrsiau'r Ganolfan yn Heol y Parc i'w cymathu ag Adran Efrydiau Allanol Coleg Caerdydd, gan golli cymorth ysgrifenyddol a'r posibilrwydd o golli aelod o staff sydd ar gytundeb tymor-byr.

Pan cyhoeddwyd y newyddion yn gyntaf mynegodd Chris Rees, sy'n rhedeg y Ganolfan mai "y casgliad dês i iddo fe oedd bod hyn yn mynd i olygu naill ai cau'r adeilad neu redeg y gwaith i lawr, ac rwy'n gweld y rhaglen ddysgu sy gyda ni ar hyn o bryd yn diflannu'n gyfangwbl".



• *Chris Rees: "Dyw hi ddim yn hollol glir beth yw bwriadau'r Gofrestrfa"*

Byddai colli gwasanaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi bod yn glec galed i'r ymdrechion i ddysgu'r iaith yng Nghaerdydd. Ers ei hagor ym 1977 mae'r Ganolfan wedi dysgu dros 7500 o bobol i siarad Cymraeg, ac eleni mae dros 420 o ddysgwyr wedi eu cofrestru i'w gwersi ar ôl twf aruthrol yn nifer y myfyrwyr y llynedd.

Sbardunwyd pryderon Chris Rees yn bennaf am na chafodd newyddion manylach ynglŷn â dyfodol y Ganolfan gan y Brifysgol.

Ar hyn o fryd ariennir y Ganolfan gan y Brifysgol yn ganolog, a ffurfioldeb i bob pwrpas yw ei symud o dan adain adran efrydiau allanol Caerdydd. Bydd gweithwyr y Ganolfan yn Llambed a Bangor hefyd yn mynd o dan adain adrannau efrydiau allanol Aberystwyth a Bangor.

Yn ôl Alun Kemp, Cofrestrydd y Brifysgol, a'r gŵr fu yng nghanol y cythrwfwl ynglŷn â'r newid, mae meddwl fod y Ganolfan i gau yn "gasgliad hollol anghywir. Mae 'di mynd braidd yn bell i ddweud bod pobol yn trio cau'r lle".

Hyd yma fodd bynnag ni chlywodd Chris Rees yn swyddogol wrth Alun Kemp nad yw ei bryderon yn rai dilys. Yr unig newyddion a gafwyd yw drwy lythyr oddi wrth Alun Kemp at bobol a ysgrifennodd ato yn datgan eu pryder am y Ganolfan.

Mae'r llythyr hwnnw'n datgan y bydd y Ganolfan yn 22 Heol y Parc "yn parhau i ddarparu cyrsiau dwys ar gyfer oedolion...Bydd y cyfarpar, yn cynnwys y labordai iaith yn aros yn y Ganolfan".

Dywedodd Alun Kemp wrth y Dinesydd mai ei argraff bersonol ynglŷn â'r sefyllfa oedd "fod rhai pobol yn fwy parod i wrthdystio y tu allan i'm swyddfa i yn lle dod mewn i drafod".

Erbyn hyn mae'r darlun ar gyfer dyfodol y Ganolfan rywfaint yn gliriach, er nad yw'n hollol sicr. Ar 1 Gorffennaf cyfarfu staff y Ganolfan â phennaeth yr Adran Efrydiau Allanol, John Perkins. Dywedodd yntau wrth y Dinesydd ei fod wedi ei ymrwymo i gadw darpariaeth y cyrsiau dysgu Cymraeg ei adran a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar y lefel bresennol.

Er hynny nid oedd yn gallu rhoi darlun cadarn o'r dyfodol, nac ychwaith baratoi cynlluniau nes bod y Brifysgol yn datgan faint o gyllid fyddai ar gael i ariannu gwaith y Ganolfan. Awgrymodd Alan Kemp na fyddai'r wybodaeth honno'n dod yn fuan iawn oherwydd "sefyllfa ariannol y prifysgolion ar hyn o bryd".

Fodd bynnag, dywedodd John Perkins y bydd dyfodol ariannol y Ganolfan yn sicrach fel rhan o Goleg Caerdydd nac fel estyniad o'r Gofrestrfa gan fod y coleg yn gallu mynd ar drywydd fynonellau newydd o arian.

Croesawodd Chris Rees y newyddion am ddyfodol y Ganolfan, ond nododd hefyd mai "ewyllys da John Perkins yw'r newyddion hyn, ond yn ddim mwy na hyny ar hyn o bryd, ac mae'r cyfan yn dibynnu ar ei air e."

"Dydw i dal ddim wedi derbyn dim byd swyddogol hyd yn hyn o unrhyw gyfeiriad, ac mae hyn yn peri pryder o hyd. Dyw hi ddim yn hollol glir beth yw bwriadau'r Gofrestrfa."

Dywed llythyr Alun Kemp bod

*i dudalen 3*

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Sain Ffagan, Caerdydd

# GWALIA STORES

**Dydd arbennig i ddathlu agor atyniad diweddaraf yr Amgueddfa Werin, GWALIA STORES' o Gwm Ogwr, - profiad siop o'r 1920au**

**DYDD SADWRN, GORFFENNAF 13,**
**10am - 5pm**

**Rhaglen lawn yn cynnwys :**

- Ffair Draddodiadol
- St Albans Swing Band
- Côr Plant Ysgolion Cwm Ogwr
- Perfformiadau gan Ysgol Gynradd Tynewydd ac Ysgol Gynradd Sirol Fronwen o Gwm Ogwr
- Hen Gerbydau
- Pabell Luniaeth
- Cynnyrch ar werth

*Gostyngiad yn y pris mynediad i ymwelwyr yng ngwisg y 1920au, a cheir gwobr am y wisg orau*

*** mewn cydweithrediad a Gardd y BBC**




*DEWCH I WELD YR ADEILAD HYNOD HWN*

*AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU*



# AUR DU

HANES GLO

Wedi ei leoli o fewn adeiladau Pwll Glo Lewis Merthyr, fe ailgreir dyddiau y diwydiant glo yng Nghwm Rhondda drwy amrywiaeth o gyflwyniadau aml-gyfryngol ac effeithiau arbennig.

Mae cyfleusterau'r Ganolfan Ymwelwyr yn cynnwys:
Oriel Gelf: sydd eisoes yn enwog am arddangosfeydd o fri
Siop Gofroddion: sy'n gwerthu dewis o anrhegion a chofroddion
Siop Goffi: sy'n cynnig bwydydd traddodiadol Cymreig

**5ed - 7fed Gorffennaf – Gŵyl Pen y Pwll**
**Am fanylion pellach ffoniwch 0443 682036**

**10fed - 11eg Awst – Penwythnos y Teulu**

Ar agor yn ddyddiol 10a.m hyd 6p.m
Mynediad olaf am 4.30p.m Oedolion £2.75 Gostyngiadau £1.75

HERITAGE PARK · PARC TREFTADAETH
Rhondda

Parc Treftadaeth y Rhondda
Coed Cae Road, Trehafod, Morgannwg Ganol
Ffôn 0443 682036

(30 munud yn unig o ganol Caerdydd.
20 munud o gyffordd 32 yr M4)



# celtic asset management cyf

AELOD O GYMDEITHAS REOLI CYFRYNGWYR, RHEOLWYR A BROCERIAID ARIANNOL

*Rydym yn*

- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd buddsoddi**
- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd a chynlluniau pensiwn**
- **Arbenigo ar arbed treth ar etifeddiaeth**

*ac yn*

**Gwbl annibynnol a di-duedd fel y gallwn ddethol y "buddsoddiadau" mwyaf addas i'r unigolyn neu'r cwmni.**

**TŶ PENHILL,**
**11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/4 Ffacs (0222) 383803

# Newyddion

## Arbrawf yn ei oed a'i amser

"Henaint ni ddaw ei hunan". Mae hyn mor wir am y deugain oed ag yw hi am y trigain a'r pedwar ugain oed.

Gyda'r dyfodol yn dynesu bob eiliad, mae'n hen bryd i bawb ddechrau meddwl am yfory. I bobol hŷn mae hynny'n golygu ystyried bod yn aelod o gymdeithas i bensiynwyr.

Hyd yma ni fu'r un gymdeithas Gymraeg o'i bath yng Nghaerdydd, ond ar fin cael ei sefydlu mae aelwyd i Gymry Cymraeg Caerdydd sydd dros eu trigain oed.

Bydd y gymdeithas newydd, a elwir Aelwyd Henoed Cymry Caerdydd, yn cwrdd am y tro cyntaf rhwng 2 a 4 o'r gloch ddydd Mercher, Medi 25, yng nghapel Minny Street.

Nod y gymdeithas yw rhoi cyfle i lawer o bobol hŷn Caerdydd ddod at ei gilydd i gymdeithasu yn eu mamiaith, ac i ymroi i weithgareddau amrywiol yn ôl eu diddordebau mewn cyfarfodydd bob pythefnos.

Yn ôl Gwenda Morgan, un o'r trefnyddion "Mae cymaint o bobol hŷn wedi dod i'r ddinas at eu teuluoedd, ond dŷn nhw ddim ishe ymaelodi â chymdeithas Saesneg neu ganolfan ddydd Saesneg".


Mae'r fenter ar hyn o bryd yn cydweithio ag adran gwasanaethau cymdeithasol De Morgannwg, ac yn trafod ag amryw gyrff am ddulliau ariannu.

Meddai Gwenda Morgan "Os yw'r fenter yn llwyddiannus mae'n bosib y gwnawn ni agor canolfannau cymunedol – yr un fath yn union â'r ysgolion meithrin".

Bydd yr Aelwyd Henoed hefyd yn annog pobol anabl i ddod i'w cyfarfodydd, ac i'r perwyl hwnnw trefnir cludiant i'r sawl sydd ei angen.

Mae'n debygol y bydd tâl bychan yn cael ei godi i ymaelodi â'r Aelwyd, gydag aelodaeth yn agored i bawb. Am fanylion pellach cysyllter â Gwenda Morgan ar 693848, neu Eilonwy Jones ar 890440.

## Estyn dwylo dros y môr




Ar ddydd Gwener, 10fed o Fai, cynhaliodd rhai o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Treganna stondin yn eu ffair ysgol. Codwyd £50 sy'n mynd at apêl Cronfa Achub y Plant i atal newyn.

Dywedodd Alex Priestley, saith oed, "Fe benderfynon ni wneud hyn am eu bod nhw'n llwgu ac mae digonedd o fwyd gyda ni".

Mae £50 yn ddigon i ddarparu bwyd am ddiwrnod i bentref o 450 o bobol yng ngogledd Swdan.

Yn y llun: Kristina Barrett (9 oed), Siôn Evans (7 oed), Luke Williams (8 oed) ac Alex Priestley (7 oed)

## Yr ymateb i'r arolwg

Mae canlyniadau cyntaf arolwg y Dinesydd bellach wedi cyrrraedd, ac mae'r ymateb yn ffafriol dros ben.

Mae dros 83% ohonoch yn cael eich copi o'r Dinesydd yn rheolaidd bob mis, ac ychydig dros 14% yn darllen copi bob 2 - 3 mis, a'r gweddill (3%) yn anamlach na hynny.

Yn ôl yr arolwg, mae 69% o'r copïau o'r Dinesydd yn cael eu darllen gan hyd at ddau o bobol, a 31% o'r copïau yn cael eu darllen gan dri neu fwy o bobol. Mae hyn yn golygu bod o leiaf 10,000 o bobol yn darllen pob rhifyn o'r Dinesydd allan o boblogaeth o tua 14,500 o Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd.

Mae mwyafrif darllenwyr y Dinesydd, yn ôl yr arolwg, yn ifanc, gyda dros 42% ohonoch yn iau na 35 oed. Mae dros 15% yn ychwanegol ohonoch rhwng 36 a 45 oed. 43% ohonoch sy'n hŷn na hynny. Mae'r gynulleidfa felly wedi ei rhannu'n gymharol gyfartal rhwng pobol iau a phobol hŷn.

O'r nifer sy'n darllen pob copi o'r Dinesydd mae dros 77% ohonoch yn perthyn i'r un teulu, gyda'ch ffrindiau yn darllen dros 16% o'ch copïau hefyd. Dim ond 4% o'ch cydweithwyr sy'n darllen eich Dinesydd (ydych chi'n ddarllenwyr hunanol?!), ac ychydig yn llai na 2.5% o bobol sydd heb unrhyw berthynas â chi gaiff ddarllen eich copi.

Cwestiwn pwysig i unrhyw olygydd yw a ydy cynnwys y cylchgrawn yn taro deg â'r darllenwyr. Yr ateb, ar y cyfan, yw 'ydy'. Mae 9.4% o ddarllenwyr y Dinesydd yn meddwl fod y cynnwys yn ddiddorol iawn, a 5.4% ymhellach yn meddwl ei fod yn berthnasol iawn. Mae'r mwyafrif helaeth, fel y gellid disgwyl wrth gylchgrawn newyddion sy'n croesi cynifer o ffiniau diddordeb, yn meddwl fod y Dinesydd yn ddiddorol (43.2%) neu'n eitha diddorol (41.8%), ac yn berthnasol (26.3%) neu'n eitha perthnasol (48.6%). Doedd y gweddill ddim yn meddwl fod y Dinesydd yn ddiddorol (4.7%) nac yn berthnasol (13.5%), neu heb roi ateb (0.6% a 6%).

Pan ofynnwyd pa fath o erthyglau sydd orau gennych i'w darllen (cwestiwn lle gawsoch gyfle i roi mwy nag un ateb), atebodd 94.5% mai pytiau o newyddion, a 69.5% mai straeon newyddion fyddent yn hoffi eu darllen. Roedd gan 64.1% ddiddordeb mewn erthyglau nodwedd, 25.6% mewn eitemau ysgafn, 54.7% mewn clywed barn bersonol, ac 20.2% am ddarllen storïau.

Pan ofynnwyd i chi gynnig syniadau eraill, nododd sawl un ohonoch eich bod am fwy o sylw i chwaraeon, hanes lleol, erthyglau i'r dysgwyr, gweithgareddau a digwyddiadau, ieuenctid ac ysgolion, coginio a'r ardd...a chlecs.

Byddai gan dros 51% ohonoch ddiddordeb i gyfrannu mewn amrywiol ffyrdd at y Dinesydd (cysylltwch â'r golygydd felly), ac atebodd ychydig yn llai nag 82.5% ohonoch bod y Dinesydd yn bwysig i Gymry Cymraeg Caerdydd, a'r rhesymau pwysicaf am hynny oedd bod yn ddolen gyswllt i'r gymdeithas Gymraeg yng Nghaerdydd ac adlewyrchu Cymreictod y ddinas. Yn yr un modd byddai'r mwyafrif llethol ohonoch (88.5%) yn gweld colli'r Dinesydd pe na bai'n cael ei gyhoeddi eto.

Mae dadansoddiad gweddill y ffigurau yn digwydd ar hyn o bryd.

**o dudalen 1**

y Brifysgol a'r Adran Efrydiau Allanol yn y coleg yn "chwilio'n ddygn am ffynonellau ariannu amgenach" ar gyfer swydd y tiwtor sydd ar gytundeb byr ac am gymorth ysgrifenyddol i waith y Ganolfan.

Yn ychwanegol at y pryderon am y Ganolfan mae'r ansicrwydd am ddyfodol swydd tiwtor Cymraeg yr Adran Efrydiau Allanol fu'n wag ers y Nadolig wedi ymddiswyddiad Cefin Campbell. Swydd yn annibynnol o'r Ganolfan oedd hon, a'r bwriad oedd ei llenwi ond hyd yma nid oes neb wedi ei phenodi iddi.

Yn ôl John Perkins nid oes modd penodi i'r swydd honno ychwaith nes y ceir darlun cliriach am gyllid yr adran. Er hynny ategodd na fynnai weld lleihad yng ngwaith y ddwy raglen ddysgu.

"Diddordeb ac ymroddiad y staff fu'n gyfrifol am y twf yng nghyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg" meddai Chris Rees, "gyda'r cwrs yn creu ei fomentwm ei hun dros y blynyddoedd. Mae'n anodd gweld sut y bydd modd cynnal y momentwm hwnnw o dan y gyfundrefn newydd".

Mae dysgwyr Caerdydd eu hunain wedi ymateb yn ddig i'r newyddion. Eisioes cynhaliwyd protest y tu allan i Gofrestrfa'r Brifysgol, a chasglwyd dros fil o enwau ar ddeiseb yn gwrthwynebu'r newidiadau.

"Gyda'r ad-drefnu fyddai dim modd i'r gwasanaeth dyfu ymhellach" meddai Chris Rees, ac o ganlyniad mae fframwaith gadarn yr holl ymdrechion i ddysgu Cymraeg yng Nghaerdydd dan fygythiad syfrdanol.

# Paul Piniwn

Mae Caerdydd ers tro wedi bod yn brolio'i bod yn ddinas gyfryngol bwysig, ond prin iawn fu'r sôn pan fu farw rhan o'r traddodiad teledu hwnnw.

Cyfeirio ydw i at HTV. Na, nid bod gin i inside information am faint gynigiodd HTV am eu ffransheis yn yr amlen frown i'r ITC, ond yn hytrach am Ganolfan Deledu Pontcanna, meithrinfa a chartref ITV yng Nhgymru am ddegwadau.

Yn ôl pob sôn, y cyfan sydd ar ôl ym Mhontcanna erbyn hyn ydy un dyn security yn cadw gofal dros hen ysbrydion diddanwch Cymraeg y cynoesau teledu. Mae'r plwg wedi ei dynnu, y golau wedi diffodd, a'r eneidiau creadigol wedi esgyn i Groes Cwrlwys (neu wrth gwrs eu gwneud yn ddiwaith).

Roedd Pontcanna yn rhan annatod o draddodiad a thwf teledu yng Nghymru – hon mewn gwirionedd oedd y ganolfan deledu hynaf oedd gennym ar ôl. Hen dŷ ffarm wedi ei drawsnewid i ogof Llewelyn, a'i darfod yn mynd heb yr un obit nac atgofion. Man lle fu defaid yn pori o gwmpas drws y ffrynt, a'r man lle wnaeth Dafydd Iwan ei farc teledol.

Roedd rhyw enaid yn perthyn i'r lle, rhyw deimlad o'r ffordd hen ffasiwn o greu pethau. Rhyw agosatrwydd.

Bu digon o sbloet gan Lundan rai wsnosa 'nôl pan dynnwyd y plwg ar un o'u hen ganolfanna teledu hwytha, ond am Bontcanna – dim.

Mae'n resyn mewn gwirionadd bod breuddwydion HTV dros y blynydda dwytha wedi cael eu dryllio bob yn un. Agorwyd Croes Cwrlwys yn 1984 ar faes glas braf ar gyrion y ddinas yn gartref i ddwy stiwdio deledu gyda'r mwyaf yng Nghymru, a'r bwriad oedd adeiladu pedair stiwdio deledu yn chwaneg maes o law. Cynlluniau i greu canolfan hamdden i'r staff, gan gynnwys meysydd chwarae.

Rown i fyny yn Tesco nos Wener. Be welis i? Rhyw erthyl o westy mawr hyll, sgerbwd o adeilad arall, a thu ôl i'r cyfan, mewn rhyw gongl, canolfan deledu HTV, gyda'r tŷ gwydr newydd hagr bondigrybwyll wedi ei sticio o flaen beth oedd, yn fy marn i beth bynnag, yn greadigaeth bensaerniol oedd yn go ddeniadol. Roedd gweld y ganolfan deledu o'r ffor fawr arfer bod yn eitha impressive. Mae'r olygfa honno – a'r syniadau clodwiw – bellach wedi mynd drwy'r ffenast.

A nôl i Bontcanna. Be dy'r cynllunia fan honno? Cadw'r ganolfan fel rhyw fath o Sain Ffagan i hanes teledu Cymru? Naci siwr. Maen nhw isho dymchwel rhan o'n hetifeddiaeth gyfryngol...a gneud lle i ddatblygiad sidêt o dai.

# Colofn Shân

Bu Mehefin yn fis prysurach nag arfer i mi. Ganol y mis bu 34 o'r Wladfa ar ymweliad â Chaerdydd. Diolch i rai teuluoedd y ddinas am roi llety a chroeso iddynt.

Roeddwn yn disgwyl llond bws ohonynt i gyrraedd gyda'r nos. Dychmygwch y panic pan ganodd y ffôn am hanner awr wedi unarddeg y bore yn dweud wrthyf bod y bws ger Pont Hafren ac y byddent yn cyrraedd o fewn tri chwarter awr!

Fu erioed y fath sgrealu! Rhedeg at y Cymro ifanc sy'n cadw siop yn y pentre a phrynu cigoedd a bara, galw yn Spar a rhuthro'n ôl i wneud mynydd o frechdanau.

Fe gyrhaeddodd y bws gan ganu'r corn yn uchel, ac wele deithwyr blinedig â phaciau i aros yng Nghymru am ddau fis. Wel rwan, mae Llandaf yn gyfarwydd iawn â byseidiau yn dod i weld yr Eglwys Gadeiriol, ond fe stopiodd sawl pentrefwr mewn syndod o weld y criw a'u paciau yn tywallt i gartref preifat.

Mawr fu yr ysgwyd llaw, cofleidio a swsus – dwy ar bob boch gan bob un. Teimlais fy mod wedi cael digon o fwytha i bara am sbel go dda!

Tipyn o gamp oedd datrys pwy oedd yn fodlon rhannu llofft efo pwy. Nid oeddwn am fod yn gyfrifol am sgandal yn y Wladfa! Cafwyd oriau o rialtwch hyd nes i'w lletywyr ddod i'w casglu.

Un digwyddiad digri – daeth Elmer Williams ataf a deud "Mae teulu Tada yn dod o fan hyn, ei di â fi yno, leiciwn i weld y lle", a rhoi darn o bapur i mi ac arno gyfeiriad yng Nghaeredin! Braidd yn rhy bell i fynd am dro ar ôl swper.

Cawsant ymweliad hapus iawn â Sain Ffagan a phlawb yn rhyfeddu at lesni'r wlad. Ymweliad â'r Eglwys Gadeiriol, a'u hymateb i gerflun Epstein oedd nad oedd yn gweddu i eglwys hynafol.

Siomwyd hwy yn y dre, wedi disgwyl cael Cymraeg yn y siopau ac ar y strydoedd. Bu raid i mi eu cysuro gan ddweud y byddai pethau'n wahanol pan fyddent yn cyrraedd ardal y Bala a Llanuwchllyn.

Y mae pum mlynedd wedi mynd heibio er i mi ymweld â hwy. Rhaid cyfaddef bod mwynhau cwmni'r fintai wedi codi awydd mawr arnai am gael dychwelyd i roi tro amdanynt. Mae'r traed yn cosi yn o arw cofiwch, ond am sbel bydd raid imi fodloni ar:

"...cofio'r haul yn y Wladfa bell ac enwi cyfeillion na bu eu gwell"



• *Strabs a chesus y Wladfa yn disgyn ar Landaf*

## Y cyrcs yn ffrwydro yng Ngwasg Prifysgol Cymru!



Enillydd cystadleuaeth wanwyn y Dinesydd oedd Elinor Snowball sy'n gweithio fel croesawydd a theipydd i Wasg Prifysgol Cymru.

Cyflwynwyd potel o siampaen, yn rodd gan BAFTA Cymru, i Elinor gan Linda Leach, Trefnydd BAFTA Cymru, a Shân Emlyn, Golygydd y Dinesydd.

Pan ofynnwyd i Elinor, sy'n 27 oed, beth oedd hi am ei wneud gyda'r siampaen, atebodd ei bod am ei gadw tan benblwydd ei gŵr Paul ymhen rhai dyddiau.

Mae Elinor a Paul yn byw yn Nhreganna gyda'u cathod Siani a Twm, ac mae hi wedi bod yn gweithio gyda Gwasg y Brifysgol ers 1986.

Pan ddarllennodd hi a'i chydweithwyr ei bod wedi ennill y siampaen, daeth gweddill y staff yn ffrindiau pennaf erioed iddi...a gofyn pryd oedd y botel yn cyrraedd!

Yn y llun o'r chwith i'r dde, Linda Leach, BAFTA Cymru ac Elinor Snowball.

## y Dinesydd

Cyfrwng i chi gael lleisio'ch barn, i gyflwyno'ch safbwynt ac i drosglwyddo gwybodaeth i Gymry Cymraeg Caerdydd, dyna yw'r Dinesydd yn ei hanfod.

Ydych chi erioed wedi meddwl y gallech chi gyfrannu erthyglau difyr i'r Dinesydd? Wel, dyma'ch cyfle.

Bydd rhifyn nesaf cylchgrawn Cymraeg pobol Caerdydd yn ymddangos ddechrau mis Gorffennaf, a rydym yn disgwyl yn eiddgar at gael cyhoeddi eich erthyglau, lluniau a'ch llythyrau chi.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn copi i'r rhifyn nesaf yw **16 Awst**. Anfonwch at y Golygydd, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE, neu anfonwch fax at Surexit Cysylltiadau Torfol: 521553.

# Tŷ bach twt newydd i MYM

Roedd yn braf gweld tyrfa dda, yn cynnwys nifer o blant y cylchoedd, wedi dod ynghyd fore Mercher Mehefin 12fed ar gyfer agoriad swyddogol swyddfa sir De Morgannwg y Mudiad Ysgolion Meithrin.

Hon yw'r swyddfa sirol gyntaf yng Nghymru, a'r gobaith yw y bydd yn hwyluso gwaith y ddwy swyddog datblygu, sef Jo Knell yng Nghaerdydd a Margaret Knight yn y Fro.

Drwy lwc, gwenodd yr haul ar yr achlysur, ac ymglasglodd pawb y tu allan i gapel y Crwys yn Heol Richmond, lle mae cartref y swyddfa newydd.

Hywel Gwynfryn, "arch-barablwr Cymru" yn ôl Gwilym Roberts oedd yn ei gyflwyno, a dorrodd y rhuban ar draws drws y swyddfa.

Dywedodd mai'r Mudiad Ysgolion Meithrin yw'r mudiad pwysicaf yng Nghymru heddiw, gan fod dyfodol yr iaith yn dibynnu ar ein plant.

Soniodd Bryan Jones, Cyfarwyddwr MYM am dwf cyson addysg feithrin Gymraeg y sir, a bu Bethan Roberts, un o sylfaenwyr y Mudiad, yn hel atgofion am y dyddiau cynnar.

Mynegodd y swyddogion datblygu eu gwerthfawrogiad i'r Pwyllgor Sir am fentro agor swyddfa, a chychwyn pennod arall yn hanes y Mudiad yn Ne Morgannwg.

Ar ôl agor y swyddfa, croesawyd pawb i rannu lluniaeth ysgafn a chafodd rhieni ac arweinyddion presennol y cylchoedd, ynghyd â ffrindiau MYM yn y sir, gyfle i sgwrsio a mwynhau awr ddifyr yng ngwmni ei gilydd.

Gallwch gysylltu â'r swyddogion datblygu yn MYM, Capel y Crwys, 77 Heol Richmond, y Rhâth, Caerdydd CF2 3AR, ffôn 464091

# Canu gwlad dros Lesotho

Roedd hi'n fore Mehefin braf ddydd Mercher yr 20fed o'r mis, pan aeth plant cylchoedd meithrin De Morgannwg ati, fel rhan o ymgyrch genedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin, i godi arian ar gyfer Lesotho yn neheudir Affrica.

Wedi paratoi'n drylwyr, ymgasglodd tua 300 o blant a'u rhieni y tu allan i'r Amgueddfa Genedlaethol, a'r plant yn fôr o liw yn eu gwisgoedd a'u hetiau yn seiliedig ar ddillad traddodiadol Lesotho.

Aeth yr orymdaith yn ei blaen o'r Amgueddfa drwy ganol y ddinas ac i'r Deml Heddwch, lle cynhaliwyd sioe i'r plant gan Geraint Griffiths ac adran blant HTV Cymru.

Yn eu dilyn oedd camera'r Dinesydd.













Si-lwli

***Meithrinfa i blant yw Si-lwli***
***(71 Heol Romilly)***

*yn cynnig gofal o 8a.m – 6p.m o ddydd Llun hyd ddydd Gwener*

*croeso i blantos hyd at 7 oed yn ystod gwyliau'r ysgol*

*mae'n bosib casglu plant o Ysgol Treganna a'u gwarchod hyd 6p.m*

*mi allwn ni warchod eich plant fesul awr neu ar hyd y dydd*

*cysylltwch â Karen, Linda, Sonia neu Ruth ar Gaerdydd 667076*

CANWR Y BYD CAERDYDD
CYSTADLEUAETH 1991

# Wythnos lawn o leisiau gorau'r cyfandiroedd

***Wynne Lloyd***

Roedd hi'n wythnos fendigedig, wythnos Canwr y Byd. Hon oedd y bumed, a chafwyd gwledd o ganu.

Eleni roedd hi'n weddol amlwg, fel yr â'r rowndiau yn eu blaen, mai'r merched fyddai'n ymgiprys am y brif wobr. Yn y rownd derfynol daeth pedair drwodd ac un gwron – y baswr o'r Almaen.

Ar hyd y daith bu'n rhaid i'r panel beirniaid ollwng sawl un a wnaeth dipyn o ôl ar nifer ohonom – Regina, soprano o Iwerddon â'r llais persain a hudol yn ei symyledd; Adina o Romania a enillodd galon gymaint ohonom; Miranda o'r Iseldiroedd â'n swynodd gyda'i llais crwn llawn dyfnder.

Ond y llais mawr dramatig a gariodd y dydd yn natganiad pwerus Lisa Gasteen o Awstralia.

Dyfarniad roddodd bleser mawr i ni oedd y wobr am y perfformiad gorau o ganu Lieder i Neal Davies, 25 oed.

Mae cysylltiadau Neal â Chaerdydd yn gryf – ei famgu'n byw yn Llanrhymni ac yn aelod yng nghapel Ebeneser. Felly hefyd ei dad Don Davies, cyn iddo symud i Gasnewydd. Daeth Neal yn blentyn ysgol sul Ebeneser.

Cysylltiad arall yw mai ei athrawes oedd Margaret Tann Williams, hithau'n aelod yn Ebeneser ac sy'n gaeth i'w chartref yng Nghyncoed. Roedd ei chwpan yn llawn pan enillodd Neal ei rownd, ac yn fwy fyth pan gafodd y wobr Lieder.



• *Neal Davies*

Astudiodd gerddoriaeth yn King's College yn Llundain cyn ennill ysgoloriaeth i'r Academi Frenhinol. Erbyn hyn mae'n byw ger Aberteifi.

Drwy'r wythnos roedd y Gymraeg i'w chlywed yn amlach nag arfer yn Neuadd Dewi Sant. Gall Cymru ymfalchio yn llwyddiant y gystadleuaeth. Cafodd ei gwireddu'n ffaith ym 1983 gan Mervyn Williams, a gobeithio na fydd gafael BBC Cymru arni'n llacio.

Dau beth â'm trawodd am Gymreigrwydd y cyflwyno. Yn gyntaf enw'r gystadleuaeth ar waliau'r neuadd. Yr hyn welai'r gynulleidfa'n syth o'i blaen oedd yr enw dair gwaith yn Saesneg, a ddwywaith yn Gymraeg – a hynny ar un ochr. Oni fyddai'n briodol cael y Gymraeg yng nghanol y tri Saesneg?

Ac yn ail, beth am y panel beirniaid? Fedra i yn fy myw â chredu y byddai unrhyw wlad arall ar chlysur tebyg heb gynrychiolydd o'r wlad honno ar ei phanel.

Mae gennym gantorion byd a allai eistedd ysgwydd yn ysgwydd â Soderstrom a Vishnevskaya.

Pwnc arall a gafodd gryn sylw ymhlith y mynychwyr cyson oedd y drefn docynnau. Roedd llawer yn anfodlon ac yn anhapus am y peth. Byddai'n dda o beth arolygu'r drefn er mwyn osgoi anniddigrwydd a siom caredigion cerdd sy'n gefn i'r gystadleuaeth.

## Cain

Gwneir apêl gan David Jenkins o'r Amgueddfa Diwydiant a Môr am unrhyw wybodaeth am y ffotograffydd Leslie Hanson.

Mae casgliad o dros 4,500 o negyddion ar gael, y rhan helaeth ynglŷn â'r môr, dociau de Cymru, a llongau.

Os oes gan rhywun gof am Leslie Hanson, cysylltwch â'r Dr Jenkins, ffôn 481919.

Sefydlwyd Oriel West Wharf yn ddiweddar yn Adeilad Jacob yn West Canal Wharf.

Ar lawr ucha'r adeilad, dowch ar draws oriel gelf olau, glân a deniadol.

Dr Martin Tinney aeth ati i sefydlu'r oriel. Gwyddel a adawodd ei yfra fel meddyg i ddilyn ei freuddwyd i hybu'r celfyddydau gweledol.

Y rhagolygon yw y bydd yn arddangos gweithiau artistiaid fydd yn cynnig golwg ar weithiau sydd, ar y cyfan, yn wahanol i'r helyw o waith a gynigir i blesio chwaeth poblogaidd.

Yn ogystal â darluniau mewn pob math o gyfryngau, arddangosir cerflunwaith a gweithiau cerameg.

Mae'n braf sylw bod polisi o roi nodiadau am yr artistiaid, ynghyd â theitlau gweithiau yn ddwyieithog, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y Dr Tinney yn medru'r Wyddeleg a chanddo barch at y Gymraeg.

Bydd chwech o artistiaid o Iwerddon yn arddangos eu gwaith yn ystod mis Gorffennaf, dan gynllun cyfnewid, tra bydd chwe artist o Gymru yn arddangos yn Nulyn – yn eu plith Ifor Davies o Benarth ac Iwan Bala a Tony Gable o Gaerdydd.

Mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi trefnu arddangosfa o'r delyn deires Gymreig i gyd-fynd â Gŵyl Telynau'r Byd yng Nghaerdydd y mis hwn.

Bydd y telynau'n cael eu dangos yn yr Amgueddfa ym Mharc Cathays, lle hefyd cynhelir datganiadau ar y delyn Gymreig, rhwng 1.15pm a 2pm o ddydd Llun, Gorffennaf 8 hyd ddydd Iau, Gorffennaf 11. **SD**


YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

**BRO DELYN · AWST 3-10, 1991**

**CYNGHERDDAU'R WYL**

**SADWRN, 3 AWST 1991** "Ble Mae Arthur?" Sioe gan blant ysgolion cynradd Bro Delyn.

**SUL, 4 AWST 1991** Cyngerdd Telecom: Perfformir gweithiau gan Mozart, Wagner a Dilys Elwyn Edwards, ynghyd â gwaith comisiwn gan Dalwyn Henshall.

**LLUN, 5 AWST 1991** Y Pafiliwn: "Garmon" – sioe gerdd gan ddisgyblion blwyddyn 1, 2 a 3 ysgolion uwchradd y cylch. Eglwys y Santes Fair, Yr Wyddgrug: Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn perfformio gwaith newydd gan Dilys Elwyn Edwards.

**MAWRTH, 6 AWST 1991** Côr Yr Eisteddfod yn perfformio Requiem, Verdi.

**MERCHER, 7 AWST 1991** Cyngerdd gan Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru 1991.

**IAU, 8 AWST 1991** "Gwinllan a Roddwyd". Noson werin – Tomos Bartle a Wil Bryan yn ein tywys drwy beth o hanes y fro.

**GWENER, 9 AWST 1991** Offeren – Bernstein. Y perfformiad Cymraeg cyntaf o gampwaith y diweddar Leonard Bernstein.

**SADWRN, 10 AWST 1991** Sesiwn ola'r Eisteddfod. Cystadleuaeth y Rhuban Glas. Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn. Seremoni Gwobrwyo Prif Gyfansoddwr yr Ŵyl.

**SUL, 11 AWST 1991** Cymanfa Ganu'r Eisteddfod. Arweinydd: Rhys Jones.

**Tocynnau: Ffôn (0352) 700344**

Swyddfa'r Eisteddfod,
24 Stryd Fawr, Yr Wyddgrug,
Clwyd CH7 1AZ.



# Huw Roberts BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

**Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills, Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA**
**Ffôn Llantrisant 224182**

# Llond gwlad o obaith



## *Dr Meredydd Evans, un o sylfaenwyr y Dinesydd, sy'n bwrw cipolwg yn ôl dros ddyddiau cynnar y papur – ddeunaw mlynedd yn ôl*

Ar gyfer Ebrill 8fed 1973, gwelaf fod gennyf y nodyn canlynol yn un o'm dyddiaduron:

"Wythnos, bron, i heddiw (dydd Llun, Ebrill 2) daeth y rhifyn cyntaf o'r Dinesydd allan. Mae Norman Williams (y prif olygydd) wedi gwneud gwaith da arno. Dyma ddechrau addawol beth bynnag. Fe ddylai'r gymdeithas Gymraeg yng Nghaerdydd allu cynnal ei misolyn ei hun; mae yma ddigon o arian ac o ddoniau. Eu cael i gyfrannu'n helaeth – dyna'r joban anodd. Mae 'na ddigon yma, fel ym mhobman arall, i siarad. Serch hynny mae 'na gnewyllyn da o weithwyr wedi bod yn ymdrechu hyd yma. Gobeithio'r gorau, bellach. Hela arian fydd fy ngwaith penna i."

Dyna ddangos yn eglur ddigon inni gychwyn ar gyhoeddi'r Dinesydd hefo llond gwlad o obaith ond ychydig iawn o adnoddau. Pryder ynglŷn â hynny, mae'n siwr, oedd yn peri i rai cyfeillion amau doethineb ei gyhoeddi o gwbl. Teimlid nad oedd digon o sylw wedi ei dalu i osod sylfeini economaidd a gweinyddol cadarn i'r fenter.

Diamau fod cryn lawer o wir yn hynny, ond doedd dim arwyddion fod unrhyw berson na charfan yn bwrw iddi i arwain yn y cyfeiriad hwnnw, felly aeth rhai ohonom ati i gynhyrchu'r papur a gweld beth a fyddai'r ymateb i hynny.

Ein barn ar y pryd oedd fod digon o siarad wedi bod am gynhyrchu newyddiadur cymunedol (dyna'r ansoddair ar y pryd; nid oedd y gair bro wedi ymddangos yn y cyd-destun hwn y pryd hwnna), ac y byddai mwy o obaith am lwyddiant pe bai gennym enghraifft benodol o'r math o beth oedd gan gefnogwyr y syniad mewn golwg.

Roedd pwysigrwydd y geiniog yn amlwg o'r dechrau; fel y pery hyd heddiw. Hen waith diflas a diddiolch yw casglu arian fel rheol, onid oes rhyw weithgaredd cymdeithasol ynghlwm wrtho. Fe all wedyn, i raddau, fod yn weddol ddifyr, a rhaid cyfaddef i nifer ohonom gael peth hwyl yn y blynyddoedd cynnar wrth drefnu ambell ddigwyddiad.

Cofiaf yn dda am y cyngerdd cyntaf a gynhaliwyd yn Neuadd Cory a rhai o adlonianwyr y ddinas yn rhoi o'u gorau inni yno; y lle yn orlawn. Ac felly yr oedd hi hefyd yn y Gymanfa Godi'r To gyntaf a drefnwyd gennym. Gwedd ddiddorol i mi o berthynas i'r amgylchiad hwnnw oedd paratoi llyfryn bach o ganeuon poblogaidd ar gynulleidfa, a ches lawer o ddifyrrwch yn chwilio yma ac acw am hen gerddi o wahanol fathau.

Fe argraffwyd rhai cannoedd o gopiau o'r llyfryn a diamau fod ambell i un i'w gael o hyd yng nghartrefi Caerdydd a'r cyffiniau. Mae f'un i gennyf yn ddiogel ddigon gan gynnwys yn ogystal fariau agoriadol alawon ar gyfer pob cân, a'r rheiny wedi eu gosod mewn cyweiriau addas ar gyfer canu cynulleidfaol hwyliog. Gwelaf imi nodi ein bod wedi casglu tua £700 trwy gynnal y cyfarfodydd hyn.

Melys odiaeth, ymhellach, yw'r atgofion am yr hwyl a'r cynhesrwydd a brofwyd yn y parti Nadolig a gynhaliwyd yn bur gyson dros gyfnod gweddol hir. Nid wyf eto wedi peidio â rhyfeddu at y drafferth, yn enwedig ar ran y merched, o baratoi ar gyfer y nosweithiau hynny, a thrylwyredd y paratoi hwnnw.

Erbyn heddiw, fodd bynnag, mae'r arian a gasglwyd yn ymddangos yn bitw ddigon. Bellach mae cynhyrchu'r papur yn ei ddiwyg presennol, yn ôl a welaf, yn £2000 y rhifyn! Dyna £20,000 y flwyddyn. Tybed a fydd yn rhaid dychwelyd at ddull siswrn a glud? Mae'r dewis yn un anodd ond pa ffordd bynnag y dewisir mynd, bydd yn rhaid wrth yr hen geiniog.

Tawaf drwy apelio at ddarllenwyr yr hen bapur annwyl i gladdu am byth y syniad ei fod i'w gael 'am ddim'. Nid felly o gwbl gyfeillion mwyn. Mae'n costio'n ddrud, mewn amser a thrafferth ar ran gwirfoddolwyr, i'w gynhyrchu – heb sôn am alwadau argraffwyr.

Rhowch ddwybunt o'r neilltu amdano, dros flwyddyn, ac anfonwch nhw drwy'r post i'r Trysorydd.

# Criw newydd i lywio tua'r Goreuon

Yng nghanolfan TV-AM yng Nghaerdydd ar y 27ain o Fehefin etholwyd pwyllgor newydd i BAFTA Cymru a fydd yn arolygu'r gwaith o liniaru'r ffordd ar gyfer y cyntaf o'r gwobrwyon Goreuon Ffilm a Theledu Cymru sydd i'w cynnal yn yr hydref.

Bydd y Goreuon yn talu teyrnged haeddiannol i'r gorau o gynnyrch ffilm a theledu Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae cynlluniau ar y gweill i baratoi'r tlws fydd i'w gyflwyno yn y seremoni.

Bydd y seremoni wobrwyo yn cael ei dangos ar y teledu, ac yn cynnwys 26 o gategorïau o'r meysydd crefft, perfformio a chynhyrchu.

Meddai Linda M Leach, Trefnydd BAFTA Cymru "Ein nod yw dathlu ac adlewyrchu'n gywir amrywiaeth ac ansawdd cynnyrch ffilm a theledu Cymru heddiw".

Ategodd Cadeirydd BAFTA Cymru, Richard J Staniforth, i'r flwyddyn aeth heibio fod yn un anturus a llwyddiannus i'r mudiad, gyda chroesawu Gwobrwyon Crefft BAFTA i Gaerdydd yn goron ar y cyfan, ynghyd â dangosiadau a phremières Cymru o sawl ffilm a chyfres deledu newydd yng Nghaerdydd a thros Gymru.




*• Pwyllgor newydd BAFTA Cymru, o'r chwith i'r dde: (rhes gefn) Marianne Grigg, Peter Phillips, Marc Evans, Tony Barnes, Mary Simmonds, (rhes flaen) Linda M Leach (Trefnydd), Gareth Rowlands, Richard J Staniforth (Cadeirydd), Pennant Roberts, Rosemary Scadden, Nigel Crowle. Hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor, Stella Mair Thomas a Russ Walker*


CEFNOGWN FFILM YNG NGHYMRU
Dangosiadau Arbennig a Rhagddangosiadau yn Chapter
BAFTA CYMRU
SUPPORTING FILM IN WALES
Premières and Special Screenings at Chapter
BAFTA Cymru: 0222 223898

# Tewi'r pyls

**Ddiwedd mis Awst daw'r gyfres Dinas i ben ar S4C, cyfres fu'n portreadu Cymreictod yn ein dinas ni. Er y beirniadu fu ar y portread hwnnw o dro i dro mae Dinas yr un mor boblogaidd ag y bu erioed. Pwy felly yw'r dyn fu'n gyfrifol amdani? Aeth y Dinesydd i holi'r cynhyrchydd, Graham Jones**



Mae diwedd Dinas ar S4C yn gyfwerth â chau meithrinfa, yn ôl Graham Jones cynhyrchydd y gyfres.

Ym 1982 ef ddaeth â Coleg i S4C, a thair blynedd yn ddiweddarach esblygodd y gyfres honno i Dinas – cyfres ddinesig ddaeth â gogwydd anghyfarwydd a gwahanol ar fywyd Cymraeg i'r mwyafrif o bobol Cymru. Bu'n byw a bod Dinas ers hynny

"On i ddim yn gweld bod gwerth neud cyfres fel Coleg – cyfres hir, dair blynedd – a wedyn jest gollwng yr holl gymeriade ac actorion", meddai, "beth ôn i ishe neud fwya oedd cario'r bobol 'ma mlaen – eu meithrin nhw – ac i weld pa fath o bethe oedd y bobol 'ma'n mynd i neud".

Erbyn 1985 roedd Graham Jones yn synhwyro bod newidiadau syfrdanol ar droed yng Nghaerdydd. "Roedd popeth o'i phlaid hi i ddatblygu...roedd hi wedi bod yn y doldrums ers y rhyfel". Agwedd arloesol mewn cyfnod cyn cychwyn datblygiadau'r Bae. Roedd hi'n anodd perswadio prif swyddogion HTV o'r potensial hyd yn oed. Rhwystrwyd Graham Jones rhag prynu un o hen adeiladau mawr y dociau er mwyn ffilmio Dinas ynddi. Erbyn heddiw byddai'r adeilad hwnnw werth miliynau.

Cydiwyd yn y ddolen rhwng hen Gardi dychmygol ddaeth i Gaerdydd nôl yn y 19eg ganrif, i wneud ei ffortiwn yn y dociau a'r llongau, i gyflwyno teulu newydd yn Dinas. Y stori oedd bod Samuel Ambrose wedi noddi Coleg Glannau Hafren (roedd ei benddelw yng nghyntedd y coleg), ac roedd ei gor-wyr, Paul Ambrose, dal yn llewyrchus yn y diwydiant llongau ac yn dal yng Ngaerdydd, "yr un fath â theuluoedd y Corys a'r teuluoedd morwrol eraill sy dal yma. Mae'n ffaith bod 'na Gymry wedi bod yn flaenllaw yn natblygiad y dociau".

"Doedd neb wedi neud y fath yma o beth erioed yn Gymraeg o'r blaen, roedd y stori yno i weld yn entrepreneurs newydd. Paul Ambroses y byd 'ma ar yr un ochr, sef yr hen arian yng Nghaerdydd, ac ar y llaw arall y mewnfudwyr – Ruth Gregorys y byd – yn gweld bod Caerdydd yn datblygu a gweld bod angen rhyw fath o wasanaeth newydd. Hi oedd yr arian newydd, a roedd hi'n neis hefyd cael dynes fusnes".

Dechreuodd Dinas rhyw ddeunaw mis cyn ei amser, yn ôl Graham Jones. "Roedd hi falle yn rhy gynnar i'r gynulleidfa Gymraeg i'w dilyn hi. Doedden nhw ddim yn gyfarwydd â'r math yma o ddelwedd o Gymry Cymraeg. Falle roedd hi'n edrych yn artiffisial i lot o bobol. Ond dydy o ddim. Mae'r Cymry hyn yng Nghaerdydd".

"Mae 'na filionêrs yn sir Aberteifi, ond dych chi ddim yn eu gweld nhw yng nghefn gwlad Cymru am eu bôn nhw'n dangos yr un ffrynt â phawb arall. Mae'r ddelwedd yn y ddinas yn hollol wahanol. Roedd 'na rwystr yn syth o'n blaen ni – pwy ydy'r rhain?"

Ond dyw Graham Jones ddim yn gweld bod hyn wedi amharu ar ratings y rhaglen. Er nad yw e'n gredwr mawr yn y ratings fel maen nhw'n cael eu paratoi, mae'n nodi'r ffaith bod Coleg a Dinas wedi gwerthu mwy o amser hysbysebion o'u cwmpas na'r un gyfres Gymraeg arall ar S4C. Gofynnwyd iddo gwtogi ar hyd Dinas er mwyn cael mwy o gomersials i mewn. Mae arolygon annibynnol i ba raglenni sy'n hoff gan wylwyr y sianel wedi dangos mai Dinas a Pobol y Cwm yw'r rhai mwya pobologaidd.

Mae pobol yn mwynhau Dinas oherwydd y stori, yr ymgecru a'r pegynnau cymdeithasol sydd ynddi. Mae Graham Jones yn gweld Dinas fel rhyw fath o *Upstairs Downstairs*. "Dyw lot o'r bobol sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg ddim yn bobol 'broffesiynol' Cymraeg, ma' lot ohonyn nhw yn bobol Caerdydd a'u gwreiddie nhw



## GALW i gof y pleser

### *Christine Pritchard –*

Ar ddydd Gwener, y 26ain o Orffennaf, byddwn yn recordio'r bennod olaf un o'r gyfres Dinas. Trannoeth, bydd y setiau yn cael eu dymchwel, dodrefn a dillad yn cael eu gwerthu, a bydd rhif 39 Penarth Road yn newid yn ôl i'w ffurff gwreiddiol – sef warws/swyddfa gyffredin.

I mi yn bersonol bydd chwe blynedd hynod o hapus yn dirwyn i ben.

Yn ystod y cyfnod hwn, aeth y ddrama sebon o un sioe'r wythnos i ddwy. Tyfodd y cast parhaol o unarddeg i ddeg-ar-hugain, ac ymunodd degau eraill o actorion â ni dros dro.

Ehangodd yr adran sgriptio, nifer yr awduron a chriw technegol fel roedd ymestyn ar storïau a ffilmio allanol.

Cynyddodd poblogrwydd y gyfres hefyd, ac adwaith y cyhoedd ar hyd a lled Cymru (heb sôn am ratings BARB yn y Stage) yn gwneud nonsens o unrhyw ffigurau swyddogol i'r gwrthwyneb.

Cawsom ein collfarnu'n hallt i ddechrau am ddefnyddio'r iaith Saesneg o bryd i'w gilydd (er na chlywyd cwyn yn erbyn y Ffrangeg a'r Iseldireg!), ac yn awr gwelwn eitemau gwbl-Saesneg ar raglen gylchgrawn gyda sêl bendith S4C. Rhyfedd o fyd!

Beth bynnag fu gwendidau'r gyfres, fe dorrwyd tir newydd yn y ddrama gyfres Gymraeg. Ceisiwyd rhoi darlun o Gymru gyfoes ddinesig – y llewyrch a'r tlodi.

Llwyddwyd i ddarganfod talentau newydd, yn actorion ac awduron, a defnyddiwyd dysgwr go iawn fel un o'r prif gymeriadau.

Ennillom gynulleidfa fawr o bobl ifanc, ynghyd â'r di-gymraeg o Gaerdydd oedd yn ymfalchio mewn gweld eu dinas nhw ar y sgrîn!

Credaf i'r cynhyrchydd, Graham Jones, a'r tîm lwyddo i gyrraedd safon artistig uchel o ran gwerthoedd cynhyrchu, a'r piti yw na fydd cyfle i barhau i wella.

Serch hynny, braint a phleser oedd bod yn rhan o'r fenter tra parodd.

yng Ngaherdydd, ac sy wedi penderfynu eu bod nhw am i'w plant gael addysg Gymraeg."

"Maen nhw'n wahanol fath o Gymry i'r Cymry sy wedi dod mewn 'ma ers y Rhyfel. Ond mae holl blant Cymraeg Caerdydd erbyn hyn yn blant y ddinas, gyda'u hacen arbennig, a'u hagweddau hollol wahanol at Gymreictod. Maen nhw'n gyfarwydd â mynd allan i fwyta mewn restaurants. Maen nhw'n galw 'ti' ar eu hathrawon. Mae'r holl bethe 'na yn ymwneud â lliw a llun Caerdydd, a pan ych chi'n eu rhoi nhw i gyd o flaen pobol, mae 'na lot o bobol sy jest ddim yn mynd i'w ddeall e. Ond be sy wedi'n synnu i am Dinas yw bod gynnon ni hen bobol ym mherfeddion gwlad Cymru sy'n ffans mawr mawr".

Dyw Graham Jones ddim yn derbyn y ddadl nad yw cymeriadau Dinas yn rai credadwy nac yn Gymry Cymraeg Caerdydd. Dywed bod nifer o bobol, o bob haen o gymdeithas sy'n Gymry Cymraeg yn byw yma, nifer fawr ohonynt yn entrepreneurs ac wedi mynd allan i neud arian – ac mae 'na ddigonedd o Gymry Cymraeg sydd yn berchen ar arian mawr.

"Fe allen ni fod wedi syrthio mewn i drap arall tasen ni wedi neud y cyfryngis"

Mae Dinas yn cael ei recordio mewn warws ar Hewl Penarth, a hyd yn oed pe na bai Dinas yn dod i ben, byddai'n rhaid symud yr holl waith cynhyrchu o'r lle am fod yr ardal honno dan ordd Bae Caerdydd.

Dyw Graham Jones ddim yn gweld y newidiadau yn y dociau fel diwedd ar gyfnod rhamantus. Doedd 'na ddim byd rhamantus am y dociau medde fe. "Doedd neb o'r blaen ishe gwbod am bobol y docie, tasen ni'n wir am y peth. Doedden nhw ddim yn good old days i bobol Tiger Bay – don nhw byth yn cael dod ymhellach na thop Bute Street".

Wrth gynhyrchu Dinas, prin iawn oedd y probleme gafwyd wrth ffilmio allan ar y strydoedd. Beth gafwyd oedd llawer o bobol di-gymraeg lleol yn dweud eu bôn nhw neu eu plant yn gwylio'r rhaglen.

"Mae 'na lot o bobol wedi bod yn troi lan yn ystod y blynyddoedd ac yn adnabod y cymeriadau, ac yn gwylio'r gyfres ag isdeitlau. Mae'r bobol 'ma wedi bod yn gweld Caerdydd ar yr awyr, a wedi bod yn gofyn beth yw hwn? Mae pobol Caerdydd â diddordeb mawr yn Dinas. Dyn ni erioed wedi cael ein troi bant o unman, a ryn ni'n mynd nôl a nôl i'r un llefydd. Mae'r dwylo'n led y pen ar agor."

"Falle mai camgymeriad mwya HTV oedd peidio gneud y gyfres yn Saesneg – dyna beth fase pobol Caerdydd yn gwylio".

Mae ymateb Graham Jones i'r feirniadaeth bod Dinas wedi cynnwys gormod o Saesneg yn un bendant, er ei fod yn cyfaddef hwyrach eu bod wedi gwneud ca gymeriad gyda'r cydbwysedd iaith ar adegau. Erbyn hyn fodd bynnag mae'n credu fod y cydbwysedd hwnnw'n iawn. Er hynny nid yw'n poeni gormod am gynnwys Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg. "Os ydyn ni'n gneud drama Saesneg am Gymru, fasech chi ddim yn gofyn i fi beidio defnyddio'r Gymraeg. Ryn ni'n genedl ddwyieithog".

"Os ych chi'n ofan dod wyneb yn wyneb â hwnna, rych chi'n israddio'r Gymraeg. Dylse hi fod ar yr un platfform â phob iaith arall yn Ewrop. Yn Ffrainc dach chi ddim yn poeni am droi i iaith arall – dach chi'n gweld Saesneg, Almaeneg, Eidaleg ar y teledu. Maen nhw'n derbyn y peth. Mae e'n rhan o'u bywyde nhw, ac mae e wedi bod yn rhan o'n bywyd ni yng Nghymru ers canrifoedd, yn enwedig yng Nghaerdydd".

"Mae gyda ni'r fantais ein bod ni'n deall y ddwy iaith yn naturiol. Dwi ddim yn gweld beth yw'r broblem. Mae 'na broblem wrth gwrs os ewch chi 90% i'r Saesneg a dim ond 10% i'r Gymraeg. Mae'n rhaid i chi fod yn ofalus gyda'r balans, ond mater o gael hwnna'n iawn ydy o".

Ar ôl chwe mlynedd o weithio ar Dinas, beth yw teimladau Graham Jones am ddirwyn y gyfres i ben. Nid yw gymaint yn amddiffyn y gyfres, ond mae'n gweld colli cyfleuon i feithrin dawn y dyfodol. "Dwi'n meddwl ei bod hi'n gamgymeriad mawr i dynnu Dinas bant, achos mae 'di cymryd blynyddoedd i feithrin be dan ni'n gweld ar y sgrîn heddiw".

"Dwi'n meddwl ein bod ni wedi cadarnhau safon sgwennu, safon cyfarwyddo, safon cynhyrchu yn gyffredinol. Dan ni 'di meithrin awduron sydd yn gyfoes, sy'n meddwl yn gyfoes ac yn medru sgwennu'n gyfoes. Mae gynnon ni ddelwedd gyfoes. Ryn ni nawr yn mynd i roi hwnna i'r naill ochor".

"Mantais Dinas yw ei bod hi yna ddwywaith yr wythnos drwy'r flwyddyn. Mae'n agor dryse i gymaint o bobol – i actorion ifanc lle allwch chi eu meithrin nhw, a'r un peth efo awduron. Mae'r peth yn ddigon mawr i gymryd pobol arno a rhoi siawns iddyn nhw. Dydy hynna ddim yn gallu digwydd gyda cyfresi byr".

"Mae'r gyfres ar ei chryfa ar hyn o bryd – ai dyma'r lle iawn i'w thorri hi? Dwi ddim yn meddwl. Datblygu ych chi'n neud o fanna. Does dim diwedd i bobol y ddinas. Dan ni yma".

"Caerdydd ydy calon Cymru ar gyfer y dyfodol. Ac os na fydd Cymry Cymraeg yma yn y ddinas, gallwch chi anghofio am y Gymru Gymraeg. Dyma lle mae'r pyls, yn pwmpio allan y gwaed i'r gwythienne drwy Gymru".

# Meddech chi...



***Catrin Lloyd Rowlands***

Efo Dinas mae'n rhaid i mi gyfadde pan mae 'di bod mynd ymlaen ddwy noson yr wythnos, dwi'n ei gwylio hi o ddewis ac nid o reidrwydd. A dwi'n hoffi hi. Mae'n artiffisial mewn lot o ffyrdd, ond ma lot o Gymry Cymraeg Caerdydd yn artiffisial hefyd does? Ma' Paul Ambrose over the top, ond ma' 'na bobol felna yng nghymdeithas Cymry Cymareg Caerdydd. Does na neb fel sy 'n byw yn Rhiwbeina yno fe, does. Maen nhw'n byw fel dau begwn. Falle bod hynna'n wall yno fo. Os nadw i'n gallu ei wylio fo, rwy'n ei recordio fo, a dwi'm yn gneud hynny gyda lot o raglenni Cymraeg erill.



***Dafydd Saer***

Dwi wedi watsio fe ar ambell i achlysur ond dyw e ddim yn adlewyrchu bywyd Caerdydd.

Sai'n credu fod shwd yuppies â 'na i gael yn Gaerdydd, ac yn sicr sneb yn siarad ag acenion received pronounciation Susneg drwy gyfrwng y Gymraeg fel ma lot o'r cymeriade'n neud.

Dyw'r darlun ddim yn un cywir ar y cyfan, ddim mewn gwahanol agwedde ohono fe dwi di weld. Mae lot mwy o'r dosbarth canol nag o'r dosbarth canol ucha sy gyda nhw, ac o'r dosbarth gweithiol. Sdim dosbarth gweithiol Cymraeg wedi bod yn Gaerdydd ers oesodd weden i.



***Nia Roberts***

Mae gin i fflat yn Cathedral Road – dwi'n meddwl eu bod nhw'n gneud iddyn nhw edrych yn fwy grotty na maen nhw mewn gwirionedd!

***Anona Clifford***

Dwi ddim yn gwylio Dinas nawr, ond pan on i'n ei wylio fe don i ddim yn meddwl llawer amdano fe. On i'n meddwl ei fod e'n debyg i Santa Barbara, popeth ddim yn real rhywffordd, wi ddim yn gwbod pam, doedd e ddim yn gartrefol. 'Na beth on nhw'n trial neud gyda Dinas really, odd e ddim fod yn gartrefol.

Wi ddim yn gwbod os oedd e'n adlewyrchu bywyd Caerdydd – odd e ddim yn adlewyrchu mywyd i. Falle bod e'n adlewyrchu bywyd rhywun arall. Wi ddim yn nabod pobol yn debyg i'r bobol 'na.



***Karen Snell***

Dwi'n gwylio Dinas weithiau. Wi ddim yn hoffi e. Mae e'n dwp. Dyw'r actorion ddim yn dda. Maen nhw'n anghofio'u llinelle.

***Melora Parry***

Wi'n dwli ar Dinas, wi'n edrych mlân ato fe. Ar y dechre ôn i ddim yn lico fe, ôn i ddim yn dilyn y stori. Wi'n meddwl fod e'n depicto bywyd y ddinas fel ma fe. Ac yn trin lot o bethe controversial fel Aids a pethe felna, pobol yn ddiwaith, ôn nhw wedi dod â Iwerddon mewn iddo fe, yuppies Caerdydd.

Wi'n meddwl fod e'n adlewyrchu bywyd Dinas. Ma' rhai'n gweud taw dim y bywyd Cymrâg yw e – ma' cymysgwch o Gymry 'ma yn dôs e. Ma' gyda ti yuppies Cymraeg, ma' gyda ti fyfyrwyr yn byw 'ma, ma' gyda ti bobol yn byw 'dai gilydd.

Alle fe ddim bod yn fwy realistic. Ac mae pobol y big business 'ma fwy na ti'n feddwl. Falle bo fi ddim yn nabod nhw gyd, ond ma' fe. A dyn nhw ddim yn hito pa mor ruthless ma' nhw.

# Annwyl Ddinesydd

## Y stincar am y Clwb yn cael ei wyntyllu

Hoffwn ychwanegu fy nghnegwath i'r drafodaeth yn y Dinesydd ynghylch Clwb Ifor Bach

Yn gyntaf, a gaf i bwysleisio na hoffwn fod yn negyddol. Y mae pwyllgor newydd yn y Clwb, ac yr wyf yn ffyddiog y byddant yn gweithio yn galed i wella'r Clwb. Hyderaf hefyd eu bod yn falch o dderbyn sylwadau trwy eich colofnau onid ydynt yn rhai maleisus.

Rhaid nodi, er yr uchod, fod y Clwb yn fudr ac yn drewi. Yn y gaeaf y mae'n oer dychrynllyd, sydd wedi fy ngyrru o 'na fwy nag unwaith. Ac y mae safon y cwrw yn wael iawn. Am y rhesymau uchod, nid ydwyf yn mynd i'r Clwb yn awr ond am gyfarfod.

Fel arfer y mae'r lle'n wag pan fyddwn i'n hoffi bod allan. Felly yr wyf yn cyfarfod â mwy o Gymry yng Ngwesty Parc y Rhâth nag y baswn i yn y Clwb.

Rhoddais fy syniadau parthed gwella'r sefyllfa uchod ymlaen ddwy neu dair blynedd yn ôl. Ni chwasant eu trafod hyd y gwn i.

Carwn orffen trwy ddymuno'r gorau i Gwilym Roberts a'r pwyllgor newydd, gan obeithio y byddant yn llwyddo i ddenu rhai fel fi yn ôl i'r Clwb.

***Peter Bradley, y Rhâth***

## Y Cymry anweledig

Gyda'ch caniatâd, rwyf yn teimlo fel cwyno.

O'r 14,000 o Gymry sy'n byw yn y Brifddinas, ble maent i gyd?

Gan fod fy mywyd cymdeithasol braidd yn llwm ar hyn o bryd – corn neu ddau ar fy nhroed sy'n golygu fod modfedd o leiaf wedi ei ychwanegu rownd fy nghanol – penderfynais ymuno â Chymdeithas y Cerddwyr (Dwyieithog) am 'Short Walk'.

Clywais i yr un gair o Gymraeg. Llediaith wrth enwi'r llefydd. Ond i fod yn deg, pan welais fod y daith yn cychwyn ar dir oedd yn codi o leiaf 40°, torrais fy nghalon, a throi yn ôl, heb siarad gyda mwy na hanner dwsin.

Enw'r pentref oedd Draethen, ac er aros yn y dafarn i weitiad am fy lifft yn ôl gartref, ni wyddai neb darddiad yr enw.

Beth ddigwyddodd i'r bobol oedd i wisgo bathodyn os oeddent yn siarad Cymraeg?

Un bathodyn yr wyf wedi ei weld, a hwnnw ar fws deulawr a aeth heibio ar frys. Gwn, drwy ddamwain, fod yma Gymraeg yn y Job Centre, ond rhaid gofyn yn Saesneg am Gymro neu Gymraes.

Pe bai arian gennyf, buaswn yn cynnig gwobr am y rhestr hiraf o'r diffyg hyrwyddo y Gymraeg gan gyflogwyr Caerdydd. Cyngor Dinas Caerdydd yn le da i ddechrau.

Pa les ysgolion Cymraeg os nad yw'r plant am fynd i'r Brifysgol? Ymddengys mai gwell yw cuddio eich bod yn siarad Cymraeg er mwyn cael gwaith yng Nghaerdydd. Efallai y byddai'r Amwythig yn nes at y bobl.

Tri cynnig i Gymro, a'm trydydd cwyn yw nad oes unrhyw gwrs yn y dref drwy'r Gymraeg. Yr wyf wedi gwneud cwrs ar ddefnyddio cyfrifiadur, ac y mae yna sawl cwrs arall ar gael yn y dydd, ond drwy'r Saesneg wrth gwrs.

Twt. Wrth strancio gyda hwn, rwyf wedi colli Pobol y Cwm, ond yn teimlo'n well.

***WM, Cathays***

## Gair da o'r gymydog ddinas

Doedd dim hawl gen i i'r copi 'ma o'r Dinesydd!

Mi welais i'r papur yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Roedd y tro cyntaf i mi gael gweld unrhyw bapur bro.

Llongyfarchiadau i chi gyd, a gobeithiaf fod eich problemau ariannol yn mynd cynd bo hir.

Fallai roedd y ffilm *Dyddiadur Dyn Dwad* ar S4C wedi rhoi dipyn o gyhoeddusrwydd i'r Dinesydd.

Oes 'na bapur bro sydd yn debyg i'r Dinesydd yn Abertawe a wyddoch chi?

***Deanne Holmes, Abertawe***

*Diolch am y cyfraniad ariannol ddaeth efo'ch llythr.*

*Mae 'na sawl papur bro yn ardal Abertawe. Gofynnwch yn Nhŷ Tawe am fwy o fanylion.*

Rhydd i bawb ei farn a'i sylw.
Anfonwch eich llythyrau at Shân Emlyn, Golygydd, Y Dinesydd, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE

# Prif benawdau

Eleni eto bydd y gyfres gwis Penawde nôl ar y teledu bob min nos o ganol Awst tan ganol Medi.

Ymhlith y cystadleuwyr y tro hwn mae tair o ardal Caerdydd am geisio'u gorau i lenwi cadair y gohebydd, sef o'r chwith i'r dde: Gwerfyl Roberts o Lanisien, Elen Elias Jones o Ddinas Powys, ac Eleri Wyn Owen o Bantmawr.








**Ysgol Gymraeg Penarth**

Yn eisiau

**Clerc i'r Llywodraethwyr**

am fwy o fanylion cysyllter â'r prifatho

Penarth 700262



Lligan

gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a Saesneg
Yn rhesymol a chyflym
Dogfennau, llythyrau, hysbysebion
ac yn y blaen.

Am ragor o wybodaeth
ffôniwch 598243

# Y mwydyn yn denu'r pysgod

### *Fe glywsoch chi am y Gogs a'r Hwntws, y Cymry a'r Saeson, y Rive Gauche a'r Rive Droite. Nawr dyma'r Ddinas a'r Fro. Rowlad Owen sy'n ymhelaethu*

Mae nifer o ddynion goleuedig y Brifddinas wedi darganfod a phrofi cynhesrwydd y Fro yn barod – yn wir mae 'na sibrydion fod aelodaeth o Gylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro yn hanfodol cyn y'ch ystyrrir fel diacon mewn un eglwys annibynnol yng Nghaerdydd.

Teimlwyd yn ddiweddar fod angen mwy o genhadu o fewn ffiniau'r ddinas er mwyn dangos i'w thrigolion fod y Browyr yn bobl y gellid nesu atynt heb wneud i'r Dinasyddion deimlo'n israddol.

Sylweddolwyd bod y genfigen sy'n bodoli ymhlith y mwyafrif o Ddinasyddion tuag at drigolion y Fro yn fwy hyd yn oed na'r eiddigedd tuag at y rhai sydd â chyfeiriad yng Nghyncoed gan y dinesydd cyffredin.

Rhag ofn i newydd-ddyfodiaid i'r Brifddinas fethu â darganfod 'Y Fro' ar eu mapiau, gwell fyddai egluro mai 'Y Fro' yw Bro Morgannwg, wrth gwrs. Gwyliedd-dra yn unig sy'n peri'r brodorion ddodi'r pwyslais ar 'Fro' yn hytrach nag ar yr 'Y'!

Er mwyn denu Cymry Caerdydd i ymweld â ni sy'n byw i'r gorllewin o'r ddinas, penderfynwyd y byddai'n syniad da i wahodd Gŵyl Cerdd Dant 1991 i Fro Morgannwg, ac mae 'na argoelion cynnar fod yr arbrawf yn gweithio.

Nid oes unrhyw wirionedd yn y si mai mwydyn yw'n logo i geisio denu pysgod mawr sy'n nofio yn y brifddinas i gael eu dal gennym.

Celwydd noeth hefyd yw disgrifio'n arwyddlun yn ffosil sy'n portreadu poblogaeth y Fro!

Mae'r arwyddlun syml, ond effeithiol, wedi llwyddo i gyfuno elfennau cerdd dant gydag ambell elfen sy'n nodweddiadol o Fro Morgannwg. Profwyd yn barod ei fod yn gallu tyfu arnoch – ond i chi roi'r cyfle iddo.

I dorri'r iâ fe ddechreuwyd gydag ambell atyniad yn ein hardal ein hunain, ond oherwydd swildod cynhenid dinasyddion rhag mynd i'r awyr agored, yn enwedig mewn golau ddydd, talwyd ymweliad â nhw yn eu cynefin, ar nos Sadwrn ym mis Mai.

Bu'r noson gyda Cwmni Drama'r Crwys yn llwyddiant mawr – ac mae'n diolch yn fawr iawn iddynt am eu cymwynas-garwch – ac felly, yn ein dull arloesol, cerddwyd ymlaen i ginio p'nawn Sul ym Mehefin yng nghartref y teulu Saer yn Llandâf.

Nid gwledd i wylio a gwrando oedd ar yr ymweliad hwnnw, ond arlwy o waith y Pwyllgor Canu Gwerin mewn awyrgylch hyfryd i gymdeithasu ynddo, gyda Non Gwilym a'r delyn i'n hatgoffa am yr 'esgus' ddaeth â ni i gyd at ein gilydd. Diolchwn yn fawr am y gwahoddiadau a'r gefnogaeth, heb anghofio'r holl waith a fu yn y paratoi, boed yn fwyd neu berfformiad.

Cofiwch, fe fydd croeso cynnes i chi ymuno yn ein holl weithgareddau, ac ysgrifennwch Gŵyl Cerdd Dant Bro Morgannwg, Neuadd Goffa'r Barri yn eich dyddiadur nawr ar Sadwrn Tachwedd 2il.

Rhaid cyfaddef na welwyd llawer o wynebau cyfarwydd o'ch plith yn y Gwerthiant Cist Car a gynhaliwyd ar iard Ysgol Gynradd Gabalfa ar fore Sadwrn Mehefin 22ain – diolch i'r prifathro Gethin Lewis am ei barodrwydd arferol i helpu – ond efallai mai enghraifft arall o'ch swildod rhag cael eich gweld mewn man agored yng ngolau dydd oedd y tu cefn i hynny.

Bu'n fore diddorol iawn, ac yn gyfle i gael cefnogaeth ariannol i'r Ŵyl ei hun! Un o drefniadau'r Pwyllgor Bwyd a Llety oedd y fenter (ac i brofi eu gallu roedd cacennau a choffi ar werth yn ystafell fwyta'r ysgol), ond cafwyd cymorth ambell aelod o'r pwyllgorau hefyd.

Braf cael bod yn aelod o Bwyllgor Gwaith lle mae aelodau pob is-bwyllgor yn rhannu baich y dynion Cyllid a Chyhoedd-usrwydd i godi arian.

Does dim rhaid bod yn hyddysg mewn cerdd dant i fod yn gefnogol i'r Ŵyl, dim ond parodrwydd i gyfrannu o'ch amser, brwdfrydedd am bethau Cymreig, a'ch harian yn achlysurol, er mwyn ceisio sicrhau llwyddiant i Ŵyl mor Gymreig mewn bro sydd ddim yn enwog am fod yn fagwrfa i gerdd-dantwyr! Brysiwn i ychwanegu mai dyna unig wendid y Fro! Tan eleni!

Pst! Os na allwch fforddio dod mâs i'r Fro, credir fod rhai tocynnau raffl yn dal i fod ar gael mewn ambell boced – cyfle i ennill £500 am ugain ceiniog, heb sôn am y gwobrau arian eraill. Da chi, peidiwch â bod yn rhy swil rhag gofyn am docyn – neu lyfr!

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

# D Sylvan Davies 1913 - 1991

### *Ieuan Davies sy'n cofio cyfaill annwyl*

Fe'i gwelais am y tro ola ar nawn Iau, Mehefin 6ed, yn yr ysbyty. Teimlai'n well. Dododd ei law lân â'i bysedd hirfain yn dyner ar fy llaw innau, a meddai â llais egwan "Gofalwch na ddewch chi i 'ngweld i 'to tan ar ôl yr Undeb".

Ffrind triw i weinidog lefarai'r geiriau consyrnol yna. Bwriedais innau anufuddhau, ond ches i ddim cyfle.

Nos Sadwrn, ffoniodd Mair Tysul Jones (diolch iddi am fod y fath gefn i Sally – dwy chwaer wahanol, eto'n un yn eu serch tuag at ei gilydd, eu hiraeth am Sylvan a'u cariad at Grist). Rhoddodd i mi'r newyddion trist am farwolaeth disyfid Sylvan – newydd fu'n ysgytwad i bawb a'i hadnabu.

Ar unwaith daeth adnod i mi "Yn yn llawen pan ddywedasant wrthyf 'Gadewch inni fynd i dŷ'r Arglwydd'". O fewn cyd-destun fel 'na y deuthum i adnabod Sylvan a Sally. Amhosib meddwl am y naill heb y llall. Dyna sy'n gwneud y colli mor boenus.

Ganwyd Sylvan yng Nghaerdydd yn un o blant y ddinas. Gyda'r teulu mynychai gapel Severn Road. Tyfodd i fod yn ffyddlon i'r eglwys ac i bopeth arall Cymraeg yn y ddinas. Datblygiad naturiol yn ei hanes oedd ei ddewis yn ddiacon. Digwyddodd hynny pan oedd Sylvan yn y Dwyrain Canol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Priododd â Sally ym 1946, ac yntau eisoes yn y tresi. Mor briodol a dymunol oedd cael cymar o'r un anian – un o'r un cefndir a'r un cariad ganddi tuag at yr un pethe a'r un Arglwydd. "Dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fy Nuw innau".

Gwasanaethodd Sally a Sylvan yn ddistaw. Paratoi'r bwrdd cymun o fis i fis, yn dosbarthu'r llyfrau emynau, yn gwagio'r wrn yn y gegin ac yn twtio'r cadeiriau yn y festri.

Cymerent ill dau ran gyhoeddus hefyd. Bu Sylvan yn ysgrifennydd y Cyngor Eglwysi Rhyddion yn y ddinas, yn drysorydd yn Severn Road, yn swyddog gyda'r Cymrodorion ac yn ddiacon ac Ysgrifennydd Gohebol yn Minny Street.

Treuliodd flynyddoedd lawer ym myd y gyfraith. Bu mewn partneriaeth yn Windsor Place i ddechrau, yna o ddiwedd y 40au hyd ei ymddeoliad ym mis Awst 1978 bu'n gyfreithiwr trosglwyddo eiddo i Gyngor y Ddinas.

Diolchwn am berson anymwthgar, annwyl, diymhongar a chwrtais, yn sicr ei farn a doeth ei gyfarwyddyd. Gadawodd fwlch ar ei ôl mewn sawl cylch ac ym mywydau llawer.

**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields, Llandâf,
Caerdydd CF5 2QB

Ffôn (0222) 562816

**Teipio**

Os am wasanaeth teipio yn Gymraeg a Saesneg, cysylltwch â Sioned Thomas, ffôn 568661

**Telyn**
ar werth

Gothic Erard mewn cyflwr da
Pris £2,750

Ffôn 0443 226468

# Arian i'r adar gleision

## *Rhys Parry sy'n dehongli cymhellion mistar iawn newydd clwb pêl-droed Caerdydd*

Rhyw gwta bythefnos yn ôl, a wedi hir aros, yr oedd hi'n edrych bod y leinin arian sy'n cuddio ymhob cwmwl bygythiol wedi dod i'r fei, a bod gobaith am ddyfodol tipyn mwy llewyrchus i dîm pêl-droed Caerdydd.

Aeth Rick Wright, y miliwnydd sy'n berchen ar Ganolfan Gwyliau Majestic yn y Barri, i'w boced a dilëwyd holl ddyledion y clwb, swm o rhyw £750,000.

Ar ôl cyfnod marw a digalon fe ddaeth gwaredwr (a phawb yn synnu bod rhywun wedi darllen y sgript). Roedd yn ymddangos fel bod arian ar gael i'w wario, y byddai cynllun i dywys y tîm yn ôl i'r uchelfannau yn gweld golau dydd, a byddai oes aur newydd i'w mwynhau.

Diwrnod yn ddiweddarach yr oedd y mis mêl ar ben, ac yr oedd yn amlwg nad y gwir Feseia oedd wrth yr awenau. Yr oedd y clwb yn ôl ar y farchnad ac os oedd unrhyw arian yn y cymylau oedd wrthi'n ail-ymgynnull, yr oedd yn bur amlwg mai i boced Mr Wright y byddai'n mynd.

Wedi dileu dyledion y clwb, gwerthu'r job lot am elw yw ei fwriad.

Arian sy'n mynd â ffansi Mr Wright a dyma'i fenter ddiweddaraf i ychwanegu at ei gelc.

Yr wyf, o bosibl, yn gwneud cam â'r gŵr gan mai ei gefnogaeth ariannol ef wedi'r cyfan a arweiniodd at benderfyniad Cyngor Dinas Caerdydd i dynnu'n ôl y cais i'r Uchel Lys i feddiannu Parc Ninian a'r ddeiseb i ddirwyn y clwb i ben.

Mae Mr Wright wedi mynd rhan o'r ffordd i glirio'r llanast a adawyd ar ôl gan yr hwch a aeth drwy'r siop am gyfnod o leiaf.

Ond mae'n rhaid bod yn ddiolchgar, mae'r clwb o leiaf yn aros yn ei unfan ar hyn o bryd yn hytrach na llithro i ebargofiant.

Wrth gwrs, dyma'r amser i gamu 'mlaen a phenodi rheolwr newydd ac olynydd i Len Ashurst – ac er mawr syndod mae digon wedi mynegi diddordeb gan bod dros gant cais eisoes yn hel llwch ar ddesg y perchennog newydd.

Mae ef wrth gwrs yn canolbwyntio ar geisio gwerthu'r clwb yn hytrach na sicrhau llwyfan gadarn ar gyfer y tymor nesaf.

Ond o bosibl mai bendith yw hyn wedi'r cyfan. Mae eisoes wedi cyfaddef nad yw'n ddilynwr pêl-droed selog a phrin y byddai o fantais i'r clwb pebai Mr Wright yn defnyddio'i egni a'i ddoniau i benodi rheolwr newydd.

Eto, mae'r dynged hon yn dod yn fwy-fwy real er na fydd hi'n gwneud fawr o synnwyr i ddyn Mr Wright fod wrth y llyw ym Mharc Ninian os yw'r cyflogwr ei hun yn bwriadu hel ei bac cyn gynted â phosibl.

# y Sêr

## *Eiry Palfrey*



### *Aries*

Dylai hwn fod yn gyfnod creadigol iawn, cewch gyfnodau braf i hamddena, ond cymrwch fantais ohonynt i greu trwy baentio tirlun neu'r tŷ bach, ysgrifennu nofel neu nodyn i'r dyn llaeth...Gall hefyd fod yn gyfnod rhamantus, felly os yw eich blys ar ffeindio hync deniadol i'ch sgubo oddi ar eich traed, nawr amdani!

### *Taurus*

Gartre mae'ch lle chi nawr – neu ar faes yr Eisteddfod wrth gwrs – cartref symudol y Cymry. Mae dau gyfnod lwcus yn eich siart ym mis Awst, sef dechrau'r mis a'i diwedd. Daw awydd arnoch i harddu'ch cartref, ei baentio neu adeiladu estyniad, torri'r lawnt...ac os ydych yn meddwl symud tŷ fe ddylai pethau ddechrau digwydd nawr.

### *Gemini*

Mae digon o waith ysgrifennu llythyron, ffonio, cysylltu â phobl o'ch blaen ar hyn o bryd. Da chi ceisiwch gael y gwaith i gyd allan o'r ffordd cyn yr 20fed o Awst, oherwydd ar ôl y dyddiad hwnnw daw pob math o droeon trwstan i'ch rhwystro.

### *Cancer*

Mi fyddwch wrth eich bodd nawr yn rhoi trefn ar eich materion ariannol. Does dim sy'n plesio Cancer yn fwy nag eistedd yn ei gell yn cyfri ei geiniogau! Cofiwch am y rhai llai ffortunus a darbodus na chi, oherwydd wrth roi yn hael i'r anghenus byddwch yn elwa ar eich canfed.

### *Leo*

Mae hi wedi bod yn haf anhygoel o ffodus i chi Leo. Gobeithio eich bod wedi manteisio ar yr holl lwc fu o'ch cwmpas, a mae e dal yno yn enwedig o Orffennaf 23ain hyd Awst 24ain pan fydd yr Haul yn eich arwydd. Ond gwnewch yn fawr ohono nawr – mi fydd yn eich gadael cyn bo hir.

### *Virgo*

Hyd yma mae 1991 wedi bod braidd yn dawel a diflas, ac er eich bod wedi gweithio'n galed a diwyd ychydig iawn rydych chi wedi ei gyflawni. Newyddion da Virgo! Mae pethau ar fin newid, ac erbyn diwedd mis Awst bydd lwc dda yn dechrau dod i'ch rhan – ond mae gwell eto i ddod!

### *Libra*

Nid yw hwn yn gyfnod da i chi gyda gwaith, felly os nad ydych chi wedi trefnu hynny eisoes beth am gymryd ychydig wyliau i roi'ch traed i fyny ac ail-ymegnio. Mae eich lefel ynni yn eitha isel ar hyn o bryd. Cymrwch fantais o'ch holl ffrindiau i gymdeithasu, mwynhau ac ymlacio.

### *Scorpio*

Mae llwyddiant gyrfaol wedi bod yn hir cyn cyrraedd Scorpio, er sawl gwaith yn ystod y flwyddyn rydych chi wedi bod o fewn trwch blewyn o'i gyrraedd – rhwystredig iawn; ond o'r diwedd ym mis Awst hwn fe ddylai pethau ddechrau digwydd, ac mi gewch y sylw a'r llwyddinat hir-ddisgwyliedig.

### *Sagittarius*

Paciwch eich bagiau Sagittarius fe ddylech fynd i wledydd pell ac egsotic nawr, a nid gwyliau o angenrheidrwydd – efallai yr ewch chi dramor i weithio. Cymrwch ofal o'ch iechyd, mae eich egni yn isel ar hyn o bryd ac yn eich gadael yn agored i heintiau ac afiechydon.

### *Capricorn*

Efallai y clywch newyddion anhapus am gyfaill, cyd-weithiwr neu berthynas yr haf hwn. Ceisiwch beidio â gadael iddo eich diflasu ormod. Mae'n eitha posib y cewch gildwrn ariannol o gyfeiriad annisgwyl. Mae hwn yn gyfnod rhywiol iawn i chi Capricorn!

### *Aquarius*

O diar Aquarius, rwy'n ofni bod eich tafod cyflym am eich rhoi mewn dŵr poeth, yn enwedig gyda'ch cymar neu bartner busnes. Fe gawsoch rybudd, felly gwnewch eich gorau glas i gadw ffrwyn ar eich tafod a'ch tymer, oherwydd chi'ch hun fydd yn dioddef fwyaf yn y pen draw.

### *Pisces*

Y peth gorau i chi wneud y mis Awst hwn yw gweithio Pisces, a gweithio'n galed hefyd, yn eich ffordd greadigol di-hafal eich hun. Yn rhyfedd, hyd yn oed os ydych wedi trefnu gwyliau cewch eich hun yn gwneud rhyw fath o waith ar eich gwaethaf. Mwynhewch e, mi fydd yn werth y drafferth.

# Ellyllon a Chyrnol Llancaiach

Ymhen ychydig ddyddiau bydd un o hen blastai Morgannwg yn agor ei ddrysau i'r cyhoedd, gan ddatgelu hen hanes cyfrin y perchnogion, y preswylwyr a'u hysbrydion.

Adeiladwyd plas Llancaiach Fawr, nepell o Nelson, tua 1530 gan Dafydd ap Rhisiart, un o fonheddwyr Morgannwg, ond ei ŵyr, y Cyrnol Edward Pritchard adawodd ei ôl yn bennaf ar y tŷ.

Roedd Llancaiach Fawr yn ddigon pwysig i warantu ymweliad gan y Brenin. Dair blynedd wedi cychwyn y Rhyfel Cartref, ar y 5ed o Awst ym 1645 roedd y Brenin Siarl I ar ei ffordd o Gaerdydd i Aberhonddu yn casglu milwyr i ymladd dros ei achos, er bod ei ffawd yn y Rhyfel eisoes wedi dechrau gwegian. Safai Llancaiach Fawr ar ochr y briffordd rhwng y ddwy dre – ffordd sydd bellach yn lwybr ger y plas.

Cafodd y Brenin groeso dyledus gan Edward Pritchard fu'n gefnogol i'r achos brenhinol, ond arweiniodd yr ymweliad at newid syfrdanol yn ei agwedd. Y prif reswm am hyn oedd crefydd. Bedyddiwr oedd Edward Pritchard, er mai prin oedd eu nifer ym Morgannwg, ac ymddengys bod y gwrthdaro crefyddol rhyngddo a'r Brenin, ynghyd ag anniddigrwydd uchelwyr Morgannwg am bresenoldeb Saeson dwad fel meistri drostynt yng Nghaerdydd, a'r ffaith hefyd bod lluoedd y Brenin yn dechrau colli'r dydd yn y Rhyfel, wedi arwain iddo newid o gefnogi'r Brenin i gyrchu dros y Senedd.

Collodd y Cyrnol Pritchard ei ddau fab yn y Rhyfel, a phriododd ei ddwy ferch feibion bonheddwyr lleol, a chollodd Llancaiach y cysylltiad uniongyrchol â theulu'r Pritchard, gan ddod yn gartref i ffermwyr tenant, a felly y bu tan y ganrif hon.

Mae'r 400 mlynedd diwethaf hefyd wedi rhoi arbenigrwydd ysbrydol i'r plas. Ni ŵyr neb yn union sawl ysbryd sy'n cerdded lloriau Llancaiach Fawr, er nad oes yr un ohonynt yn ysbrydion drwg. Ac fe'u clywir yn amlach nag y'u gwelir.

Yr enwocaf ohonynt yw Mati y brif forwyn. Enwyd stafell ar ei hôl, lle mae'r naws yn troi'n oer yn ddisymwth.

Bu farw Mati yn sydyn mewn amgylchiadau brawychus. Mae'n ymddangos fel dynes rhwng 30 a 40 oed, yn gwisgo gŵn wen hir, ac fe'i gwelwyd hi y tro diwethaf dri mis yn unig yn ôl.


Yn aml iawn clywir sŵn traed trwm dyn yn cerdded dros loriau pren y llofftydd gan y rhai sy'n gweithio ac yn ymweld â'r plas.

Yn ôl rhai, ysbryd y Cyrnol Pritchard ei hun sy'n gyfrifol am sŵn y camau breision, a gwelwyd ei ysbryd unwaith yn y neuadd fawr lle bu wrth ei waith fel yr ynad heddwch yn y fro.

Gwelwyd hefyd ysbrydion plant yn chwarae ar brif risiau'r plas, ac un o'r plant hynny yn was bach du ei groen. Ac ar hyd yr hen hewl fawr wrth ochr y tŷ gwelir yn aml ysbryd hen goets fawr yn carlamu heibio.

Mae nifer o hanesion eraill am yr ysbrydion yn Llancaiach Fawr, er mai rhai yn unig sydd wedi eu profi fel straeon a phrofiadau ysbrydol go iawn.

Daethpwyd o hyd hefyd i nifer o ddarganfyddiadau dirgel yn y plas sy'n dwyn i gof hen draddodiadau ac arferion Morgannwg i gadw ysbrydion a gwrachod draw o'r tŷ.



Erbyn hyn Cyngor Ardal Cwm Rhymni sy'n cynnal Llancaiach Fawr fel amgueddfa o gyfnod y Rhyfel Cartref, lle mae modd sawru bywyd 350 o flynyddoedd yn ôl i'r eithaf, o ymweld ag awyrgylch gynoesol i flasu bwyd y cyfnod.

Ac i'r eneidiau dewr yn eich mysg, cynhelir ymweliadau yn ystod nosweithiau hir a thywyll y gaeaf dan olau cannwyll er mwyn cyfarfod ag ellyllon plas Llancaiach Fawr.


Roundheads and rapiers, hauntings and hiſtory.

MAE PLAS LLANCAIACH FAWR YN AGORED O ORFFENNAF 20fed 1991.

Llancaiach
—Fawr—




AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

*CELTIAID CYMRU*



**Y PRIF ADEILAD**
Parc Cathays, Caerdydd



**CELTIAID CYMRU**
*Tan Medi 29*
Mae'r arddangosfa yn canolbwyntio ar y Celtiaid o'r cyfnod cynhanesyddol diweddar hyd at yr Oes Tywyll (1500 CC tan 1000 OC). Mae'n cynnwys adran ar hanes yr ieithoedd Cymraeg a Cheltaidd ac adluniad o'r un maint â'r gwreiddiol o dŷ crwn Celtaidd Cymreig, ynghyd ag arddangosiadau o gelfyddyd Geltaidd, gemau a Henebion Cristnogol Cynnar.

*Gorffennaf 19*
Cerddoriaeth Geltaidd o Gymru, gan Peter Stacey ac 'Aberjaber'. Perfformiad yn dechrau am 7.15pm

*Awst 30*
Noson o gerddoriaeth a dawnsiau Cymreig gan E Davies, Robin H Bowen, J Shorland, C Mathews a Chwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd. Perfformiad yn dechrau am 7.15pm

Am fanylion pellach ffoniwch 555105

Celtica 1991 Cymru Wales

# Menna'n Manylu

Fáilte!

Nôl yn nechre mis Ebrill mi gês i'r cyfle cynta i fynychu'r Ŵyl Ban-Geltaidd, a symudwyd eleni o Killarney i Galway gan fod mwy o le a mwy o ddiddordeb yn y byd canu gwerin yno yn ardal y Gaeltacht.

Trefnwyd dau drip o Gymru gan Bwyllgor Cymru o'r Mudiad Pan-Geltaidd a'r ysgrifennydd Tegwyn Williams sy'n ymroddgar iawn i draddodiadau a gwyliau'n cyd-Geltiaid.

Cychwynnodd ein bws ni o Glwyd, gan gyrraedd Galway toc wedi hanner nos, a phawb yn awchu am dŷ bach a jin mawr. Roedd gwesty'r Imperial wedi adfywio hyd orie mân y bore, a ninne'n codi'n blygeiniol i fynd ar daith drefnwyd gan Tegs i ymweld ag ogofau Wailwee, a chlogwyni Mohar yn Swydd Clare. Mwynhau golygfeydd o diroedd mawnog a chalchog y wlad. Bythynod gwyngalchog a bywyd cyntefig hamddenol y trigolion, a phasio Lisdurnvarna, pentre lle cynhelir gŵyl bob mis Medi i ferched chwilio am ŵr. Biti mai mis Ebrill oedd hi.

Roedd yr ogofau'n dyddio nôl filoedd o flynyddoedd pan drigai eirth o dan ddaear, a safai clogwyni Mohar yn greigiau serth uwchlaw rhyferthwy'r môr. Aros am baned a cherdyn post yn y caffi gerllaw, a rhai (oedd yn ddigon dwl) yn cael cyfle i dalu 50c i dynnu llun ci yn smocio cetyn ar gefn mul.

Gyda'r hwyr, y noson hir-ddisgwyliedig. Cystadleiaeth y gân Pan-Geltaidd yng ngwesty'r Ardilaun House. Ar ôl araith gan Mary Robinson, Arlywydd Iwerddon, clywsom artistiaid o bum gwlad Geltaidd (doedd Llydaw ddim yno gan fod ganddynt eu gŵyl eu hunain yr un pryd).

Neil Williams a'i fand oedd yn cynrychioli Cymru, ac er nad oedden nhw'n cael defnyddio'u drymiau eu hunen, a bod diffyg ar y system sain, cawsom berfformiad gwych. Cân ddigon di-nod yn naws roc a rôl y 60au gan Gernyw a orfu, er fod pawb arall yn argyhoeddedig mai cân dawel, werinol o Iwerddon oedd y gân Geltaidd fwyaf addas. Roedd yn braf iawn clywed arweinydd y noson – Gwyddel o'r enw Joe MacDonald o Galway – yn siarad Cymraeg glân graenus. Fe ddysgodd ein iaith tra'n byw yn chwarel y Llechwedd rhwng 1973 a 1976.

Gofynnwyd i mi wneud eitem i Radio Cymru y bore canlynol, felly gorfu i mi aros yn sobor drwy'r nos. Sobor o beth – yn enwedig gan na wnaeth derbynfa'r gwesty fy neffro mewn pryd. Dyne wastraff ar barchusrwydd ac ymchwil manwl. Roedd fy mreuddwyd o fod yn ohebydd yr Ŵyl Ban-Geltaidd yn deilchion!

Roedd canu a pherfformio answyddogol yw Ŵyl yn apelio'n fwy na'r cystadlu ffurfiol, ac un bai am hynny oedd fod y cystadlu ar chwâl mewn gwestyai a thafarndai o gwmpas y dre. Gorfu i fi wneud step y glocsen – heb glocsen – o flaen pawb, efo Ceri fy chwaer yn cyfeilio. Dôn i ddim wedi clocsio ers tua deng mlynedd, a wnes i erioed ddawnsio efo sgidie dawnsio traddodiadol dyn o'r Alban a brwsh o du ôl bar o'r blaen. Profiad a hanner.

Y prynhawn cyn gadael mi gawson ganu Gwyddelig yn nhafarn y Taffees, a chân gan Gôr Alawon Menai gan iddyn nhw ennill perfformiad gore'r Ŵyl (swyddogol) cyn i bawb orfod ffarwelio'n ddagreuol tua un o'r gloch y bore a mynd i'r bysus i ddal y cwch am adre.


Yr Academi Gymreig

**Acen, Atgofion, Cred**

Darlith theatrig o waith

**Rhydwen Williams**

yng ngofal John Owen a chast o gyn-ddisgyblion

**Gwesty Tŷ Newydd, Ffordd Penderyn, Hirwaun**
**7.00pm, 12 Gorffennaf 1991**

Tocynnau £3.00 (sy'n cynnwys bwffe wedi'r perfformiad)

Am fanylion a thocynnau cysyllter â
Dafydd Rogers, Yr Academi Gymreig, Tŷ Mount Stuart,
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF1 6DQ
Ffôn 0222 492064

*gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau*


# Byd y Bol

## Dafydd Saer yn y gegin

Ar ôl yr amrywiol giniawau a phartïon swper yr wyf wedi arlwyo ar eu cyfer, gofynnodd fy nghyfeillion i mi gyhoeddi llyfr cogiono, ond yn lle hynny gofynnodd y Dinesydd imi ddarparu colofn ar fwyd a diod lysieuol. Dyma'r gyntaf. Pryd rhwydd a maethlon ydyw, yn defnyddio tofu, bwyd Sineaidd llawn protin. Gellir prynu'r tofu mewn siopau bwyd iach, ond mae'n rhatach ei brynu o'r archfarchnadoedd Sineaidd yn Tudor Road yn Riverside.

- 1 owns o lentils gwyrdd
- 2 courgette mawr
- 2 glôf o arlleg
- 1 llwy fwrdd o olew
- 6 owns o tofu
- 4 owns o gnau ffrengig

Berwch y lentils gyda hanner llwy de o halen am 10 munud, yna lled-ferwch am 15 munud pellach. Hannerwch y courgettiau ar eu hyd, crafwch y canol allan, a'i rhoi o'r neilltu. Rhowch y darnau cou mewn desgl ffwrn.

Twymwch yr olew, ffrwich y garlleg, yna ychwanegwch gnawd y courgette. Byddaf innau'n ychwanegu llwyaid o fonosodium glutamate yma, ond ni fydd pawb yn dymuno gwneud hynny. Coginiwch y courgette ar wres ysgafn am rhyw 10 munud.

Malwch y lentilau'n fras â fforc, ac ychwanegwch hwynt at y courgettes. Licwideiddiwch y tofu ag ychydig o'r lentilau a chourgettes cymysg, cymysgwch ef yn drwyadl â gweddill y gymysgaeth, ac arllwyswch ei i fewn i'r courgettes cou.

Gwasgarwch y cnau ffrengig drostynt, a chwisgiwch hwynt yn y ffwrn ar gas mark 5.

Hapus fwyta


Mae Cyngor y Celfyddydau'n adolygu ei bolisïau ar gefnogi'r theatr Gymraeg.
Byddai Pwyllgor Drama a Phanel Theatr Gymraeg y Cyngor yn croesawu:

Sylwadau oddi wrth unigolion sydd â diddordeb, oddi wrth y proffesiynau ac oddi wrth y cyhoedd a chyrff eraill ar
**Y Theatr Gymraeg 1992-1995**

Gellir cael dogfen ysgogi gychwynnol oddi wrth:
**Michael Baker**
**Cyfarwyddwr Drama**
**Cyngor y Celfyddydau**
**Stryd yr Amgueddfa**
**Caerdydd CF1 3NX**

BYDDWCH CYSTAL Â CHYFLWYNO'CH SYLWADAU ERBYN 31 GORFFENNAF 1991

SGWRSIO GYDA'R CYMRY

*Cwmni sy'n cyfathrebu â Chymru gyfan*



DOD Â'R CYMRY AT EI GILYDD

BANGOR CAERDYDD CAERFYRDDIN YR WYDDGRUG